# Bwletin Menter Môn

## Wythnos Hinsawdd Cymru

Yn Menter Môn, rydym yn falch bod gwella'r amgylchedd yn rhan bwysig o’n gwerthoedd. Rydym yn benderfynol o hybu’r economi mewn ffordd sy’n gwarchod yr amgylchedd, gan ddarparu cyfleoedd i bobl ifanc a sicrhau budd i gymunedau a busnesau. Dyma gip cyflym o sut rydym yn gwneud hyn:

## Buddsoddi mewn ynni adnewyddadwy lleol

Un o'n prosiectau yw cynllun **Ynni Llif Llanw Morlais**, sydd â'r potensial i gynhyrchu 240MW o drydan glân carbon isel ar gyfer hyd at 180,000 o gartrefi.

Rydyn ni hefyd yn y broses gychwynnol o ddatblygu **Hwb Hydrogen** newydd yng Nghaergybi, a fydd yn edrych ar defnyddio hydrogen fel tanwydd amgen carbon isel ar gyfer cludiant, gan anelu yn y pen draw at leihau llygredd awyr. Mae gennym hefyd **baneli solar** ar ein is-orsaf Morlais, sydd eisoes yn cynhyrchu trydan ar gyfer y grid!


Is-orsaf Morlais.


Tagio llurs yn ddiogel gyda offer monitro, er mwyn dysgu mwy am eu hymddygiad.

## Ymchwilio i fioamrywiaeth a chwilio am ffyrdd i ddysgu mwy

Mae ein Prosiect Ymchwil Nodweddion Morol yn monitro ymddygiad a phatrymau bywyd gwyllt ym mharth Morlais. Dyma'r ardal lle bydd tyrbinau ynni llanw yn cael eu gosod i gynhyrchu trydan.

O'r ymchwil hwn, byddwn yn sicrhau **bod adar a mamaliaid morol yn cael eu diogelu** wrth i'r prosiect ddatblygu - gan ddefnyddio technoleg fel 'atalwyr sain' sy'n creu systemau sŵn tanddwr i lywio bywyd gwyllt i ffwrdd o'r tyrbinau. Rydyn ni eisoes wedi cynnal llawer o ymchwil i wella ein dealltwriaeth, a fydd yn y pen draw yn cael ei ddefnyddio ar gyfer prosiectau ynni llanw tebyg ledled y byd.

## Datblygu cadwyni cyflenwi bwyd lleol

Mae bron i **50% o fwyd yn y DU** yn cael ei fewnforio, felly mae tyfu a chynhyrchu bwyd lleol yn helpu i leihau allyriadau carbon ac yn cefnogi busnesau lleol.

Drwy ein cynllun Larder Cymru, rydym wedi cydweithio â chwe awdurdod lleol yng Nghymru i sicrhau bod **cynnyrch lleol** yn cael ei ddefnyddio mewn ysgolion. Rydym hefyd yn gweithio gydag ysbytai i sicrhau **bod bwyd Cymreig yn cael ei ddarparu i gleifion ac ymwelwyr.**


Dyma rhai o’r busnesau bwyd a diod lleol rydym yn gweithio gyda nhw drwy gynlluniau fel Larder Cymru.

## Diogelu ein bywyd gwyllt brodorol

Rydyn ni'n deall bod pob creadur yn rhan o'r ecosystem, ond mae rhai anifeiliaid anfrodorol yn fygythiad i fywyd gwyllt cynhenid. Un o'r rhai sydd mewn perygl ydy'r llygoden ddŵr, felly rydyn ni wedi sefydlu tîm o bobl i fonitro a rheoli afonydd yn ardal y Fenai er mwyn **sicrhau lloches i fywyd gwyllt bregus.**

Drwy wneud y gwaith hwn, rydyn ni hefyd yn **diogelu bywyd gwyllt arall o fewn yr un ecosystem**, gan godi ymwybyddiaeth o faterion sy'n effeithio ar anifeiliaid ar lan yr afon.



Llygoden ddŵr, un o'r anifeiliad brodorol rydyn ni'n eu gwarchod trwy ein cynllun Afonydd Menai.



Creu crefftau o ddeunydd ail-law.

## Helpu pobl i ailddefnyddio ac ailgylchu

Gyda bron i 45% o allyriadau carbon yn dod o eitemau bob dydd, mae'n hanfodol i ystyried ffyrdd o'u hailddefnyddio.

Mae ein gwasanaeth newydd, Cylchol, yn helpu pobl i **ailddefnyddio, atgyweirio ac ailgylchu eu hoffer** drwy weithdai lleol — gyda gwirfoddolwyr yn helpu atgyweirio eitemau am ddim— neu drwy Ffiws sy'n rhoi mynediad i'r dechnoleg diweddaraf er mwyn osgoi gwastraff ac annog cydweithio

## Annog y gymuned i gymryd rhan i ddiogelu'r amgylchedd

Mae'r amgylchedd yn perthyn i ni i gyd, felly mae'n bwysig bod ein cymunedau yn gwybod sut i ofalu amdano.

Mae ein prosiect Cwlwm Seiriol yn **annog y gymuned i gymryd rhan i ddiogelu eu hamgylchedd naturiol** a gwneud iddynt deimlo'n fwy hyderus wrth reoli mannau gwyrdd lleol. Mae'r prosiect hefyd yn hyrwyddo llesiant pobl a;u hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau cadwraeth i wella iechyd meddwl.



Aelodau o'r gymuned yn cymryd rhan mewn gweithgaredd i ofalu am eu hamgylchedd lleol.

## Yn dod yn fuan...

Dros yr wythnosau nesaf, byddwn yn cynnal **Sgwrs Fawr Hinsawdd Ynys Môn** i godi ymwybyddiaeth o'r effaith y gall newid hinsawdd ei gael ar ein cymunedau. Cadwch lygad ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol am ragor o wybodaeth.

post@mentermon.com mentermon.com